

## Papur Briffio Llywodraeth Cymru ar gyfer cyngorau cymuned a thref Cyfarfodydd aml-leoliad a hysbysiadau cyfarfod – Mai 2021

*DS: Nid canllawiau statudol yw'r nodyn briffio hwn, ond fe'i tynnir o ganllawiau statudol drafft ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n darparu gwybodaeth, wedi'i llywio gan y canllawiau hynny, i gefnogi mynediad ehangach at drafodion cyngor yn unol â'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

### Beth yw'r newidiadau?

Mae Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021') yn darparu ar gyfer presenoldeb aml-leoliad mewn cyfarfodydd cyngorau cymuned a thref (a nodir o hyn ymlaen fel 'cyngor cymuned'). Y gofyniad yw bod yn rhaid i gyngor cymuned wneud a chyhoeddi trefniadau ar gyfer galw cyfarfodydd, sy'n caniatáu – ond nid yn ei gwneud yn ofynnol – i gyfranogwyr fod mewn sawl lleoliad.

Mae Atodlen 4 i'r Ddeddf hefyd yn cynnwys newidiadau eraill sy'n ymwneud â hysbysiadau cyngor cymuned e.e. rhoi hysbysiad o gyfarfodydd a'u trefniadau a chyhoeddi nodyn byr o fewn 7 diwrnod i'r cyngor. Dylid darllen y rhain ar y cyd ag adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned sicrhau bod gwybodaeth a dogfennau penodol ar gael yn electronig (gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd).

---

### Cyfarfodydd aml-leoliad

#### *Pam gwneud y newidiadau hyn?*

Gwnaeth Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 newidiadau dros dro i drefniadau cyfarfodydd cyngorau cymuned, gan ganiatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal yn rhithiol (h.y. cyfarfodydd aml-leoliad) a'i gwneud yn ofynnol i ddogfennau cyfarfod gael eu cyhoeddi'n electronig. Roedd y newidiadau hyn yn caniatáu i gyfarfodydd barhau yn ystod pandemig y coronafeirws. Roedd y newidiadau hyn yn boblogaidd ac yn fuddiol, felly gwnaeth Llywodraeth Cymru y newidiadau hyn yn barhaol drwy Ddeddf 2021.

Mae llawer o gynghorau wedi canfod bod presenoldeb – gan gynnwys gan y cyhoedd – a chynhyrchiant cyfarfodydd wedi gwella gyda chyfarfodydd aml-leoliad. Mae manteision hefyd o ran lleihau teithio a chyfleustra, a galluogi cynghorwyr, aelodau o'r cyhoedd a'r wasg i gymryd rhan yn haws yng nghyfarfodydd y cyngor.

Ni ddylid ystyried mai cyfarfodydd corfforol yw'r safon aur gyda chyfarfodydd aml-leoliad yn ail opsiwn. Gall cyfarfodydd corfforol fod yn gyfleus ac yn effeithiol i rai sydd wedi arfer fwyaf â hwy – ond gallant fod yn anhygyrch neu'n anghyfleus i lawer, gan gynnwys cynghorwyr presennol.

#### *Beth yw'r gofynion?*

Mae'r adran hon yn nodi'r pethau y mae'n **rhaid** i awdurdodau eu gwneud mewn perthynas â chyfarfodydd aml-leoliad.

Mae Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor cymuned wneud a chyhoeddi trefniadau ar gyfer ei gyfarfodydd er mwyn sicrhau y gellir cynnal eu cyfarfodydd mewn modd sy'n galluogi pobl nad ydynt yn yr un lle i gyfarfod. O dan y trefniadau, bydd yn rhaid bod cyfarfodydd yn gallu cael eu cynnal yn rhithiol. Os caiff y trefniadau eu diwygio neu eu disodli, rhaid cyhoeddi'r trefniadau newydd hefyd.

Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarfodydd gael eu cynnal mewn ffordd benodol. Mater i'r cyngor yw p'un a ydynt yn cael eu cynnal yn rhithiol, yn rhannol rhithiol neu'n gyfan gwbl wyneb yn wyneb – yn amodol ar y rheoliadau iechyd cyhoeddus sy'n bodoli.

Ystyriwyd agweddau ymarferol y trefniadau'n ofalus ac mae'n bwysig i Gynghorau fod yn glir mai'r gofyniad sylfaenol yw bod aelodau'n gallu clywed ac yn cael eu clywed gan eraill.

Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Mae'r holl gyfranogwyr yn yr un lleoliad ffisegol;
- Mae'r holl gyfranogwyr yn yr un lleoliad ffisegol ac eithrio un unigolyn sy'n ymuno o leoliad arall;
- Mae tua'r un nifer o gynghorwyr yn bresennol mewn man ffisegol ag sy'n ymuno o bell;
- Fe'i cynhelir yn gyfan gwbl o bell lle nad oes trefniadau ffisegol wedi'u gwneud.

Er y caniateir cyfarfodydd ffisegol o dan Ddeddf 2021, rhaid i gynghorau nodi bod Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr (h.y. aelodau'r cyngor, aelodau o'r cyhoedd a'r wasg) allu ymuno â chyfarfodydd o bell – hyd yn oed os mai cyfarfodydd corfforol yw'r dull a ffefrir. Rhaid i gynghorau gyhoeddi'r trefniadau hyn, er enghraifft, drwy reolau sefydlog. Ni chaniateir i gynghorau fynnu bod pob cyfarfod yn cael ei gynnal yn gwbl gorrfforol.

Mae adran 48 o Ddeddf 2021 yn golygu bod yn rhaid i gynghorau cymuned roi cyfle rhesymol i'r cyhoedd gymryd rhan yn eu cyfarfodydd. Dylai trefniadau'r cyfarfod egluro sut y gallai hyn ddigwydd.

Nid yw adran 46 o Ddeddf 2021 sy'n ymwneud â darlledu trafodion yn gymwys i gynghorau cymuned.

Ceir rhagor o fanylion am y ddeddfwriaeth berthnasol yn **Atodiad A**.

### *Beth ddylai'r trefniadau ei ystyried?*

Rhaid i'r trefniadau fod yn berthnasol i'ch cyngor. Dylent fod yn gyson ag egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan, y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau

cynghorau cymuned a rhaid iddynt ystyried y cyngor a/neu'r ddeddfwriaeth bresennol o ran iechyd y cyhoedd.

Awgrymir y dylai'r trefniadau gynnwys:

- Sut y bydd cyngor yn penderfynu pa gyfarfodydd fydd ag elfen ffisegol (h.y. ystafell gyfarfod y cyngor) a sut y bydd mynediad o bell yn gweithio yn yr achosion hynny;
- Y lleoliad ar gyfer cyfarfodydd corfforol ac (os yw'n berthnasol) y plattform cyfarfod ar-lein priodol a/neu fynediad dros y ffôn. Efallai y bydd angen i gynghorau ystyried y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol a gwerth am arian ar gyfer unrhyw uwchraddio i seilwaith.
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd, gan gynnwys penderfynu ble mae aelod yn bresennol<sup>1</sup>, a gweithdrefnau pleidleisio;
- Ffyrdd o weithio yn ystod y cyfarfod e.e. a ddylid defnyddio'r swyddogaeth sgwrsio lle y bo'n briodol, a sut i wneud hynny, rheoli ymddygiad afreolus a phleidleisio.
- Trefniadau i gefnogi cyfranogwyr eraill (gan gynnwys y cyhoedd a'r wasg) i allu cael mynediad i'r cyfarfod a chymryd rhan ynddo. Gallai hyn gynnwys trefniadau ystafelloedd aros rhithwir i sicrhau mynediad priodol ac amserol.

Nid yw'n ofynnol cynnal cyfarfodydd yn yr un modd bob tro y mae'n cyfarfod.

Wrth benderfynu pa gyfarfodydd y gellir eu cynnal yn gyfan gwbl o bell a/neu gyda darpariaethau ffisegol, dylai cynghorau ystyried:

- Amgylchiadau cynghorwyr unigol a'u dull dymunol o gymryd rhan mewn cyfarfodydd. Efallai y bydd rhai cynghorwyr am ymuno â chyfarfodydd y cyngor o leoliad arall yn ddiodyn – oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gweithio neu ofalu sy'n ei gwneud yn anodd mynychu cyfarfodydd yn bersonol. Yn yr un modd, efallai y bydd gan rai cynghorwyr reswm dilys pam fo'n well ganddynt gyfarfodydd corfforol, neu eu bod yn ffafrio hynny.
- Sut y gall aelodau'r cyhoedd gael mynediad i gyfarfodydd – efallai bod rhesymau da iawn pam nad yw unigolion yn gallu bod yn bresennol yn bersonol, ond serch hynny byddent yn dymuno gwrando ar drafodion am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Pa mor hygyrch ydyw i'r wasg glywed am straeon lleol ac adrodd arnynt er mwyn galluogi trafodaethau ac atebolrwydd cyhoeddus ehangach.
- Sut y gellir defnyddio telefoni a thechnoleg arall i gefnogi a hwyluso cyfarfodydd aml-leoliad sy'n gymesur â'r amgylchiadau.

---

<sup>1</sup> Mae cadarnhau ble yr ystyrir bod aelod yn bresennol yn bwysig os yw'n berthnasol at ddibenion penderfynu a yw wedi mynychu cyfarfod o'r cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf (a85, Deddf Llywodraeth Leol 1972).

## Hysbysiadau

### *Pa hysbysiad y mae'n rhaid ei roi am gyfarfodydd y cyngor?*

- Rhaid cyhoeddi hysbysiad o amser a lleoliad cyfarfod cyngor [llawn] (gan gynnwys sut y gellir cael mynediad ato yn rhithiol, os yw'n berthnasol) yn electronig ac mewn man amlwg yn y gymuned o leiaf 3 diwrnod clir cyn y cyfarfod, neu os caiff y cyfarfod ei alw ar fyr rybudd, ar yr adeg y caiff ei alw.
- Dylid anfon y gwŷs i fynychu cyfarfod at yr aelodau yn electronig. Os yw aelod am dderbyn y gwŷs yn ysgrifenedig yn hytrach nag yn electronig, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r clerck a nodi'r cyfeiriad post y dylid anfon y gwŷs iddo.
- Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir galw cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor y cyngor ar fyr rybudd. Os felly, dylid cyhoeddi hysbysiadau gydag o leiaf 24 awr o rybudd.
- Mae'r gofynion hysbysu hyn hefyd yn gymwys pan fo cyfarfod ffurfiol yn cael ei gynnal nad yw'n agored i'r cyhoedd.

### *Beth y mae'n rhaid ei gyhoeddi yn dilyn cyfarfodydd y cyngor?*

- Heb fod yn hwyrach na 7 diwrnod gwaith ar ôl cyfarfod o'r cyngor, rhaid i'r cyngor gyhoeddi nodyn yn electronig sy'n nodi:
  - Enwau'r aelodau a fynychodd y cyfarfod, ac unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb;
  - Unrhyw ddatganiadau o fuddiant;
  - Unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod, gan gynnwys canlyniadau unrhyw bleidleisiau.

Nid yw'r gofyniad hwn yn disodli'r gofynion a nodir yn adran 55 o Ddeddf 2013 i gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd yn electronig ac unrhyw wybodaeth arall a nodir yn yr adran honno.

*DS: Nid yw'r gofynion ynglŷn â'r nodyn sydd i'w gyhoeddi ar ôl cyfarfod o'r cyngor yn gymwys ar gyfer busnes preifat neu lle byddai datgelu gwybodaeth yn niweidiol i weithredu ar y penderfyniadau hynny.*

## Atodiad A: Deddfwriaeth

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau cyfarfodydd ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae [Rhan 3, Pennod 4 o Ddeddf 2021](#) yn ymdrin â chyfarfodydd llywodraeth leol, gan gynnwys cyfarfodydd cynghorau cymuned a thref. Mae'n cynnwys:

- Presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd: Rhaid i gynghorau cymuned wneud trefniadau ar gyfer cyfarfodydd "aml-leoliad", lle gall cyfranogwyr glywed a chael eu clywed gan ei gilydd. (a47);
- Hysbysiad o gyfarfodydd a cyhoeddi agendâu: Rhaid i gynghorau cymuned gyhoeddi gwybodaeth benodol, gan gynnwys hysbysiadau o gyfarfodydd, yn electronig, a rhaid i wybodaeth electronig sy'n ymwneud â chyfarfodydd barhau i fod ar gael yn y fformat hwn am chwe blynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod (Atodlen 4, Rhan 1 o Ddeddf 2021, sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972).

Mae [Atodlen 4 i Ddeddf 2021](#) yn nodi diwygiadau i ddeddfwriaeth flaenorol, h.y.:

- [Rhan 1, adran 1 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus \(Derbyn i Gyfarfodydd\) 1960 \(p. 67\)](#) mewn perthynas â'r cyhoedd yn cael mynediad i gyfarfodydd;
- [Atodlen 12, Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972](#) mewn perthynas â rhoi hysbysiad o gyfarfodydd, lleoliadau, presenoldeb, trefniadau pleidleisio a mynediad at ddogfennau.

Dylid darllen Deddf 2021 ar y cyd [ag adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol \(Democratiaeth\) \(Cymru\) 2013](#), sy'n cwmpasu gwefannau cynghorau cymuned ac yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned ddarparu gwybodaeth a dogfennau penodol yn electronig